WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* **06.10.17**

PWYLLGOR FFRINDIAU GLANRAFON – *FRIENDS OF GLANRAFON COMMITTEE.*

Cyfarfu'r pwyllgor gweithgar hwn nos Lun a gwnaed trefniadau ar gyfer nifer o wahanol weithgareddau codi arian yn ystod y tymor hwn. Fel rhaghysbysiad i chi, cynhelir y Ffair Nadolig flynyddol **nos Iau, Rhagfyr 7fed. o 3.30 – 6 p.m.**Byddwch wrth gwrs yn derbyn mwy o fanylion parthed y digwyddiad hwn yn nes i'r amser, ond gobeithio y gwnewch chi gadw'r dyddiad yn glir.

Bwriada'r pwyllgor hefyd drefnu disgo Hwyl yr Hydref dros ddwy sesiwn bnawn Iau, Hydref 26ain. Bydd y sesiwn gyntaf ar gyfer disgyblion y Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2, a'r ail sesiwn ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3,4,5 a 6. Eto, bydd mwy o fanylion yn eich cyrraedd yn nes i'r amser.

*This hardworking committee met on Monday and arrangements were made for various fundraising activities during this term. As a preliminary notice to you, the annual Christmas Fayre will be held this year on **Thursday, December 7th. from 3.30 – 6 p.m.** You will of course receive further information regarding this event nearer the time, but please make a note of the date.*

The committee also intend to organise two sessions of Autumn Fun discos on Thursday, October 26th. The first session will be for the Reception and Years 1 and 2 pupils and the second for the Years 3,4,5 and 6 pupils. Once again, further details will reach you nearer the time.

LLYSGENHADON GWYCH – *CHAMPION AMBASSADORS.*

Cafodd chwech o aelodau'r Cyngor Ysgol fore i'w gofio yng Nghanolfan Glasdir yn Llanrwst pan gawsant gyfle i gyfarfod y Comisiynydd Plant fore dydd Mawrth. Mwynhaodd y disgyblion hyn eu hunain yn fawr a bu'r cyfan yn brofiad gwerthfawr iawn iddynt.

Six members of the School Council had a memorable morning at the Glasdir Centre in Llanrwst when they met the Children's Commissioner on Tuesday. The pupils very much enjoyed themselves and it was indeed a valuable experience for these children.

CLWB DRAMA THEATR CLWYD *DRAMA CLUB*.

Arhosodd nifer dda iawn o ddisgyblion Blwyddyn 3 ar ôl ysgol ar gyfer y sesiwn gyntaf o'r Clwb Drama newydd a drefnir gan Theatr Clwyd bnawn Mawrth. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr a bydd yn parhau am y 4 wythnos nesaf ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3, cyn i ddisgyblion Blwyddyn 4 ddechrau wedyn am 5 wythnos.

A large number of Year 3 pupils stayed after school for the first session of the Drama Club organised by Theatr Clwyd on Tuesday. They all very much enjoyed the activity which will continue for another 4 weeks for these pupils before Year 4 pupils sessions then commence for another 5 weeks.

PNAWN AGORED – *OPEN AFTERNOON.*

Daeth cynrychiolaeth dda iawn o rieni ynghyd i'r Pnawn Agored drefnwyd ar gyfer dydd Mercher. Roedd yn hyfryd eich gweld a gobeithio i chi deimlo i'r cyfan fod yn fuddiol ar dechrau blwyddyn ysgol newydd fel hyn.

A very good representation of parents came to the Open Afternoon on Wednesday. It was lovely to see everyone and it is hoped that you found it all to be beneficial at the beginning of the new school year like this.

TYNNU LLUNIAU UNIGOLION A THEULUOEDD – *INDIVIDUAL AND FAMILY PHOTOS.*

Bu cwmni Tempest yma ddiwedd yr wythnos yn tynnu lluniau unigolion a theuluoedd, a byddwch yn derbyn y lluniau bychan i'ch galluogi i'w harchebu cyn bo hir.

The Tempest company have been here at the end of the week taking individual and family photographs, and you will soon receive the proofs to enable you to order the photographs.

SIARTER IAITH – *LANGUAGE CHARTER*

Pnawn 'ma, cynhelir cyfarfod i drefnu gweithgareddau'r Siarter Iaith ar gyfer ysgolion Cymraeg Sir y Fflint yn yr ysgol.Mae nifer o weithgareddau diddorol i ddigwydd a fydd yn ein harwain at ennill statws aur y Siarter Iaith yn ystod y flwyddyn hon.

This afternoon, a meeting to organise events for the Language Charter activities for the Flintshire Welsh schools will be held in school. A number of interesting activities are to be held which will lead to winning the Language Charter golden award during this year.

SHWMAE/SUMAE?

Fe'ch hatgoffir am y wybodaeth anfonwyd atoch heddiw ynglyn â'r gystadleuaeth i greu penwisg Gymrieg allan o ddeunyddiau wedi'u hail gylchu, fel rhan o ddathliadau'r ysgol i ddynodi'r diwrnod arbennig hwn. Edrychir ymlaen at weld y creadigaethau ddydd Gwener nesaf!

You are reminded of the information sent to you today regarding the competition organised to celebrate this special day, when pupils are asked to create Welsh headgear out of re-cycled materials. We shall look forward to seeing the creations next Friday!

PARCIO – *PARKING*

Yn anffodus, rydym yn parhau i dderbyn cwynion oddi wrth drigolion lleol (y tro hwn ym Mryn Coch Uchaf) am rieni/gwarchodwyr o'r ysgol yn parcio'n flêr wrth ddod â'r plant yn y bore a'u casglu yn y prynhawn. Gofynnir yn garedig i bawb roi ystyriaeth i drigolion yr ardal er mwyn llwyddo i gynnal perthynas dda â nhw eto i'r dyfodol.

Unfortunately, we continue to have complaints from local residents (this time from Upper Bryn Coch) regarding parents/guardians parking untidily whilst bringing the children in the morning and collecting them at the end of the day. We kindly ask you to consider the local residents so that we can maintain a good relationship with them all.

GWISG YSGOL – *SCHOOL UNIFORM.*

Atgoffir pawb mor bwysig yw hi i bawb wisgo gwisg swyddogol yr ysgol yn gyson er mwyn sicrhau safon uchel bob amser. Mae esgidiau du yn edrych cymaint gwell na sgidiau ymarfer gyda'r wisg hefyd. Cofiwch bod eitemau o wisg ysgol mewn cyflwr ardderchog ar gael l'w prynu yn yr ysgol am £1 yr eitem bob amser.

Everyone is reminded how important it is for all pupils to wear the school's official uniform in order to ensure the highest possible standards at all times. Black shoes look so much better than trainers with the school uniform also. Remember that there are items of school uniform in excellent condition available to purchase at £1 per item in school at all times.

AELODAETH YR URDD *MEMBERSHIP*

Daeth yn amser i'r plant ymaelodi ag Urdd Gobaith Cymru am y flwyddyn addysgol bresennol- ewch ar lein **aelodaeth@urdd.org- - cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda**

Ni fydd y plant yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau , chwaraeon ac yn y blaen os nad ydynt yn aelodau.

*The time has come for the children to join Urdd Gobaith Cymru for the current academic year - go online to- **aelodaeth@urdd.org – as soon as possible please.***

Children will not be allowed to take part in any activities, sports ,etc if they are not members.

CINIO YSGOL - *SCHOOL DINNERS*****

Hoffwn eich hatgoffa am prisiau cinio-*Just a short note to remind you of school dinner money prices:-*

£2-15 y dydd/*day* **£10.75 yr wythnos/*weekly***

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S EVENTS.*

10.10.17 Swyddogion y Cyngor Ysgol yn ymweld â Siambr Cyngor Sir y Fflint – *School Council officials to visit Flintshire Council Chamber.*

11.10.17 Diwrnod T. Llew Jones – gweithgareddau yn y dosbarthiadau – *T. Llew Jones' Day – class activities.*

12.10.17 Twrnament pêl droed a phêl rwyd yr Urdd *football and netball tournament.*

13.10.17 Diwrnod Sut mae?/Shwmae?*Day.*

13.10.17 Treialon nofio i fechgyn Blwyddyn 5 a 6 – *Swimming trials for Years 5 and 6 boys.*